PHYTOPHTHORA RAMORUM AR LARWYDD JAPAN YN NE CYMRU

1. Mae'r nodyn hwn yn grynodeb o'r wybodaeth am y sefyllfa sy'n datblygu mewn perthynas â brigiad *Phytophthora ramorum* yn ne Cymru. Ar hyn o bryd, dim ond yng nghoetiroedd Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n cael eu rheoli gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru y darganfuwyd y brigiad.

Cefndir

2. Darganfuwyd yr afiechyd cwarantin *Phytophthora ramorum* yn y DU am y tro cyntaf yn 2002. Yn yr amgylchedd ehangach, mae wedi bod yn bennaf gysylltiedig â'r rhododendron sy'n helpu i gynhyrchu'r sborau. Pan fo digon ohonynt yn cael eu cynhyrchu, gallant heintio coed a phlanhigion eraill sydd gerllaw. Roedd ymdrechion rheoli wedi canolbwyntio'n bennaf ar gael gwared ar y rhododendron. Mae'r Comisiwn Coedwigaeth, Ymchwil Coedwig a'r Asiantaeth Ymchwil Bwyd a'r Amgylchedd (Fera) wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd i arolygu, astudio a rheoli'r afiechyd.

3. Ym mis Awst 2009, cadarnhawyd *Phytophthora ramorum* ar *Rhododendron ponticum* yn isdyfiant larwydden Japan aeddfed, ac hefyd ar ddail llwyn larwydden Japan yng Nghernyw. Mae arolygu a phrofi dilynol ar safleoedd eraill yng ngogledd a gorllewin Dyfnaint a gorllewin Gwlad yr Haf wedi cadarnhau presenoldeb *Phytophthora ramorum* ar larwydd Japan o bob oed, ynghyd ag ar rywogaethau yn eu hisdyfiant. Cadarnhawyd hefyd fod dail larwydd Japan heintus yn cynhyrchu pum gwaith y sborau y byddai rhododendron yn eu cynhyrchu ac mae'n bosibl gwasgaru'r rhain yn sylweddol bell, degau o gilometrau mae'n debyg. Mae'r canlyniadau hyn yn amlygu newid sylweddol yn neinameg yr afiechyd. Yn flaenorol, byddai heintiau'n cael eu cyfyngu i fannau ger rhododendron heintus yn unig.

4. Amlygodd arolygon o'r awyr o goetiroedd yn ne Cymru ym mis Mai 2010 symptomau a oedd yn dangos y gallai *Phytophthora ramorum* fod yn bresennol. Mae arolygu a phrofi dilynol wedi cadarnhau heintiau helaeth ymysg larwydd o bob oed yn rhan isaf Cwm Afan, Cwm Garw a Bro Morgannwg yn ne Cymru. Mae arolygon pellach yn dangos bod y sefyllfa'n newid yn gyflym ac mae'n debygol y bydd yr haint wedi lledu ymhellach.

Beth rydym yn ei wneud

5. Rydym wedi gweithredu mesurau bioddiogelwch ar bob un o'r safleoedd heintus. Gweler y mesur bioddiogelwch ar wefan Iechyd Planhigion y Comisiwn Coedwigaeth http://www.forestry.gov.uk/pdf/phytophthoraprotocol30apr2010.pdf/$FILE/phytophthoraprotocol30apr2010.pdf .

6. Caiff arwyddion eu gosod ger holl fynedfeydd y coetiroedd heintus yn rhoi gwybod i'r cyhoedd am yr haint a gofyn iddynt helpu rheoli lled yr haint.

7. Bydd Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn trafod trwyddedau eiddo gyda phroseswyr er mwyn galluogi iddynt dderbyn larwydd heintus.

8. Byddwn yn dechrau torri coed heintus i lawr yn fuan.

9. Rydym yn parhau i arolygu standiau larwydd Japan yn ne Cymru.

10. Rydym wedi gorfffen hyfforddi staff Comisiwn Coedwigaeth Cymru mewn perthynas â *Phytophthora ramorum* a bioddiogelwch a byddwn yn estyn hwn i holl berchnogion a rheolwyr coetiroedd cyn bo hir.

11. Mae staff Grantiau a Rheoliadau yn dilyn mesurau bioddiogelwch ar eu holl ymweliadau safle.

12. Caiff diweddariadau pellach eu cyhoeddi'n achlysurol. Caiff cyfarfod i roi rhagor o wybodaeth i berchnogion a rheolwyr y sector preifat ei drefnu cyn bo hir.

Symptomau

13. Mae gwybodaeth am symptomau'r *Phytophthora ramorum* a brofwyd hyd yma ar gael yn rhwydd ar wefan y Comisiwn Coedwigaeth http://www.forestry.gov.uk/forestry/WCAS-4Z5JLL. Ar larwydd Japan, gall blagur a dail gael eu heffeithio a byddant yn edrych fel blaenau blagur gwywedig, crin a nodwyddau du. Mae'r blagur heintus yn colli eu nodwyddau cyn amser. Mae'n bosibl y bydd gan goed sydd â brigau meirw nifer o gancrau ar eu brigau a boncyffion uchaf sy'n gallu gollwng resin. Gweler y daflen symptomau.

Beth ddylai perchnogion a rheolwyr coetiroedd ei wneud?

14. Ewch i wefan y Comisiwn Coedwigaeth www.forestry.gov.uk/pramorum i gael mwy o wybodaeth ac ymgyfarwyddo â'r symptomau a manylion eraill.

15. Parhewch i fod yn wyliadwrus ac arolygwch eich coed yn rheolaidd, yn enwedig lle mae gennych goed larwydd a/neu rododendron. Sylwch ein bod yn bennaf bryderus am larwydd mewn coedwigoedd a choetiroedd o ran newid yn neinameg yr afiechyd hwn.

16. Os ydych yn amau bod eich coetir wedi'i heintio neu os gwelwch symptomau amheus, dylech roi gwybod i Swyddfa Grantiau a Rheoliadau Comisiwn Coedwigaeth Cymru, Clawdd Newydd, Rhuthun, Sir Ddinbych, LL15 2NL, ffôn: 0300 068 0300, e-bost: bww.ts@forestry.gsi.gov.uk

17. Bydd y manylion y gofynnir i chi amdanynt yn cynnwys:

    - Eich enw a chyfeiriad;
    - Rhif ffôn ac e-bost er mwyn cysylltu â chi;

- Lleoliad y coetir dan sylw (cyfeirnod grid neu god post neu dref agosaf);
- Ardal ac oed y larwydd Japan yn fras;
- Ardal y rhododendron yn fras (os yw'n bresennol);
- A oes gan y rhododendron (os yw'n bresennol) symptomau;
- Dyddiad pan sylwoch ar y symptomau yn fras.

18. Os ydych yn poeni am goeden unigol mewn gardd, tir parc neu amwynder, dylech gysylltu â Gwasanaeth Ymgynghori Diagnosteg Iechyd Coed Ymchwil Coedwig ar 01420 23000 neu ewch i www.forestresearch.gov.uk/ddas.

19. Argymhellwn yn gryf eich bod yn rhoi mesurau bioddiogelwch sylfaenol ar waith, yn enwedig os ydych yn poeni am heintio eich coetiroedd http://www.forestry.gov.uk/pdf/phytophthoraprotocol30apr2010.pdf/$FILE/phytophthoraprotocol30apr2010.pdf.

Mehefin 2010